Polisi Dysgu o Hirbell Ysgol Gyfun Gŵyr

Rhagarweiniad

Pan fo'n rhaid cau yr ysgol i ddisgyblion am gyfnod amhenodol oherwydd tywydd garw neu faterion yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, blaenoriaeth pennaf yr Ysgol yw iechyd a diogelwch pob disgybl ac aelod o staff. Bydd yr Ysgol yn cau yn unol â chyfarwyddiadau a rheoliadau cydnabyddedig.

Bydd ebost briffio yn cael ei rannu gan y TRhU am 8:30am yn feunyddiol o Ddydd Llun – Gwener.

Bydd hefyd cysylltiad beunyddiol drwy gyfryngau cymdeithasol yn cyfarch cymuned yr Ysgol.

Mae'n ofynnol i'r Ysgol barhau i gynnig addysg i bob disgybl a myfyriwr yr Ysgol yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd y ddarpariaeth yn parhau i gynnig arweiniad, gwybodaeth a hyfforddiant yn unol â chynlluniau gwaith adrannol, ac fe osodir gwaith i bob plentyn.

Disgwylir i bob aelod o staff ymroi i'r egwyddorion hyn wrth ddygymod â'r sefyllfaoedd anarferol hyn.

Egwyddorion

1. Mae **cyfrifoldeb** pob athro i'r dosbarthiadau y mae yn ei addysgu yn parhau yn weithredol. Yr athrawon sydd dal yn gyfrifol am addysgu a dysgu effeithiol yn ystod cyfnod o addysgu o hirbell.
2. Disgwylir i **amlder** cysylltiad pob athro a'i ddosbarthiadau gael ei gynnal yn ystod cyfnod o addysgu o hirbell. Os yw athro yn 'gweld' dosbarth tair gwaith mewn wythnos, yna dylid cysylltu yn electronig (ebost Hwb) tair gwaith yr wythnos a dosbarth y disgyblion hynny. Glynir at strwythur yr amserlen gyfredol o ran cysylltu â dosbarthiadau.
3. Mae **strwythurau o fewn Adrannau** yr Ysgol yn parhau mewn lle yn ystod cyfnod o Ddysgu o Hirbell. Mae cyfrifoldeb y Pennaeth Adran am yr addysgu a dysgu o fewn yr Adran yn parhau. Os oes gofid am gynnydd o fewn pwnc, gwaith y Pennaeth Adran yw adrodd i'w reolwr llinell. Cyfrifoldeb y Pennaeth Adran fydd delio â chyfathrebiad yn ymwneud â'r pwnc gan e.e. *CBAC,* Cymwysterau Cymru.
4. Mae **strwythurau Bugeiliol** yr Ysgol yn parhau mewn lle yn ystod cyfnod o Ddysgu o Hirbell. Er enghraifft, mae Tiwtor Dosbarth 8B dal yn ymddiddori yn, ac yn cefnogi, disgyblion 8B. Mae Pennaeth Bl.8 dal yn ymateb i ofidiau am gynnydd a lles disgyblion y flwyddyn. Yn ogystal mae materion Amddiffyn Plant i'w cyfeirio drwy *MyConcern* yn ôl yr arfer.
5. Mae **strwythurau rheoli canol ac uwch** yr Ysgol dal mewn lle wrth weithredu Dysgu o Hirbell. Saif strwythurau cyfrifoldebau Rheolwyr, a chyfundrefn Rheolwyr Llinell.
6. Mae **staff ategol** yr Ysgol yn parhau i ysgwyddo yr un cyfrifoldeb ag arfer wrth weithio o hirbell. Er enghraifft, mae'r Swyddog Arholiadau dal yn gyfrifol am arholiadau. Os nad oes modd gweithredu rôl wrth weithio o Hirbell, gall y Pennaeth wneud cais rhesymol i aelod o staff ysgwyddo cyfrifoldeb amgen.
7. Bwriedir glynu at **gyfundrefn beunyddiol o hysbysu rhieni** o'r angen iddyn nhw sicrhau bod eu plant yn logio mlaen i HWB yn ddyddiol er mwyn cyflawni gwaith a derbyn cyfarwyddiadau gan athrawon. Gwneir hyn yn ganolog gan y Swyddog Data.
8. Defnyddir ebost Hwb i staff gysylltu â'i gilydd.

Camau Gweithredu wrth baratoi ar gyfer Dysgu o Hirbell

- **Gwirio cyfeiriad HWB pob disgybl** – taenlenni cyfredol ar gael ar *Staff Distribution.*
- **Trafod y broses ymlaen llaw gyda phob disgybl** yn eu dosbathiadau dysgu. Gosod canllawiau a chyfarwyddiadau clir ar gyfer ymateb i'r tasgau, cyflawni gwaith, a chyflwyno'r gwaith i'r athro.
- **Defnyddio *Microsoft Teams* HWB** i greu a rhannu adnoddau a derbyn gwaith. Gellid gosod cysylltiadau i feddalwedd arall fel dolenni mewn ebyst. Cynigir hyfforddiant i aelodau o staff ar y camau sydd angen i'w dilyn i sefydlu a gweithredu hyn. Gall y cyfnod o addasu ac arbrofi yn hyn o beth barhau tra bod yr ysgol ar gau, gan gyfathrebu hyn yn glir i ddisgyblion.
- Awgrymir sefydlu **cyfeiriadau ebost HWB torfol** i bob dosbarth y bydd athro yn ei addysgu.
- **Cynigir adborth** ar gyfer gwaith drwy *Teams.*

NI DDYLID BYTH DEFNYDDIO MEDDALWEDD I GYSYLLTU Â DISGYBLION SY'N CANIATAU I STAFF WELD DISGYBLION ONIBAI BOD HYN WEDI EI GYMERADWYO O FLAENLLAW GAN GYDLYNYDD TGCH YR YSGOL

NI DDYLID DEFNYDDIO UNRHYW DDULL O GYFATHREBU GYDA DISGYBLION Y TU ALLAN I HWB.

Awgrymiadau pellach:

- Llunio gweithgareddau hwylus fydd yn sbarduno pobl ifainc i weithio, ymchwilio, darllen, ymarfer, ac yn bwysicach oll, i wenu!
- Beth am ofyn i ddisgyblion fod yn fentrus a chreadigol wrth ymateb i heriau pen-agored?
- Beth am gyfeirio at y llu o adnoddau sydd ar gael ar e.e. *YouTube*, ac ar HWB ei hunan, er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o Gymru a Chymreictod?
- Gosod gwaith pwrpasol yng nghyd-destun paratoi ar gyfer arholiadau allanol ar gyfer disgyblion hŷn yr Ysgol.
- Ffocysu ar fynnu sylw disgyblion wrth osod tasgau diddorol a pherthnasol.
- Ystyried ennyn cynnydd fel targed wrth gynllunio tasgau.
- Dangos diddordeb bugeiliol ym mhob disgybl wrth ymateb i ebyst.

(Adolygwyd: Gorffennaf 2026)